Archwilio Cymru
Audit Wales

# Pwysau ar Gyllideb a Chostau Gwasanaethau Cymdeithasol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1947A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o’r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Nid yw'r Cygnor wedi gallu manteisio i'r eithaf ar fuddion posibl gwaith partneriaeth pan fydd yn comisiynu ac yn gweinyddu lleoliadau gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion gwella 6

Nid yw'r Cyngor wedi gallu manteisio i'r eithaf ar fuddion posibl gwaith partneriaeth pan fydd yn comisiynu ac yn gweinyddu lleoliadau gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio 7

Nid yw trefniadau'r gyllideb gyfun ar gyfer llety mewn cartrefi gofal yn rhoi gwerth am arian 7

Mae trefniadau'r Cyngor i gontractio gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio wedi ennill eu plwyf, ond mae newidiadau cenedlaethol diweddar i'r broses asesu ariannol wedi arwain at gost ariannol ychwanegol 9

Mae'r Cyngor yn mynd ati i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau priodol, ond gall mynediad at arian gofal iechyd parhaus arwain at oedi ac anghytuno 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae cynghorau a byrddau iechyd ledled Cymru'n gwario symiau sylweddol o arian ar ofal i oedolion mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio, ac mae'r galw am y gwasanaethau hyn gan boblogaeth gynyddol o rai sy'n heneiddio yn parhau, gan roi mwy o bwysau ar gyllidebau cyrff cyhoeddus.

2 Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan StatsCymru[1] yn dangos bod cynghorau'r Gogledd wedi gwario tua £66 miliwn yn 2018-19 ar leoliadau nyrsio a lleoliadau gofal preswyl, ac mae gwybodaeth feincnodi'r GIG yn dangos bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) wedi gwario £83 miliwn yn 2018-19 ar leoliadau allanol.

3 I gydnabod y pwysau ariannol hwn, dyrannodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) £400,000 ychwanegol yng nghyllideb refeniw 2018-19 ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Yn 2019-20, dyrannodd y Cyngor £500,000 pellach yn ei gyllideb refeniw i gydnabod y pwysau oherwydd galw ar Wasanaethau i Oedolion, a dyrannodd £850,000 yng nghyllideb refeniw 2020-21 i gydnabod tangyllido disgwyliedig o £2.5 miliwn yn ystod y flwyddyn yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac amcangyfrif o'r twf parhaus yn 2020-21. Yn 2020-21, mae'r Cyngor yn bwriadu gwario dros £67 miliwn ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol.[2]

4 Gall ariannu gofal mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio fod yn fater dyrys a dryslyd i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u perthnasau. Er bod cyfrifoldebau'r byrddau iechyd, y cynghorau a defnyddwyr y gwasanaeth o ran ariannu costau gofal wedi'u pennu mewn statud a'u hategu gan ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn ymarferol, gall unrhyw anghytuno rhwng cyrff cyhoeddus o ran dehongli'r canllawiau roi mwy o straen ar ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u perthnasau.

5 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) i rym ar 6 Ebrill 2016. O dan Ddeddf 2014, roedd rhwymedigaeth statudol ar gynghorau a byrddau iechyd i sefydlu ac i gynnal cyllideb gyfun erbyn 6 Ebrill 2018 mewn perthynas â'r modd y maent yn arfer eu swyddogaethau o ran llety mewn cartrefi gofal. Yn ystod ein gwaith maes, cawsom wybod bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi cronfeydd cyfun ar waith. Deallwn y bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud argymhellion i gryfhau ac i wella'r trefniadau presennol.

6 Ar hyn o bryd, Cyngor Sir Ddinbych sy'n lletya cyllideb gyfun y Gogledd ar gyfer llety i bobl hŷn mewn cartrefi gofal, a hynny ar ran y Bwrdd Iechyd a chynghorau Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn.

[1] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue


[2] Ffynhonnell: Taflen wybodaeth Conwy: **Buddsoddi yn eich cymuned.** Treth y Cyngor Conwy.

7 Ceir pum ffordd o ariannu gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio:

- Gofal a ariennir gan ddefnyddiwr y gwasanaeth
- Gofal a ariennir ar y cyd gan y Cyngor a defnyddiwr y gwasanaeth
- Gofal nyrsio a ariennir ar y cyd gan y Cyngor, defnyddiwr y gwasanaeth a’r GIG (lle bo'r gofal nyrsio a ariennir yn daladwy)
- Gofal a ariennir ar y cyd gan y GIG, y Cyngor a defnyddiwr y gwasanaeth
- Gofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG

**Arddangosyn 1: Trefniadau ariannu gofal preswyl**

Mae **Arddangosyn 1** yn dangos defnyddiwr y gwasanaeth fel y sawl sy’n cael gwasanaethau gofal mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio, a’r pum ffordd o ariannu gofal o’r fath, a'r cyfan wedi’i gwmpasu gan drefniadau'r gyllideb gyfun.




8 Cynhaliwyd ein hadolygiad cyn pandemig COVID-19. Mae’n anochel y bydd y cynghorau a’r Bwrdd Iechyd wedi symleiddio’r prosesau penderfynu a’r prosesau ategol i fynd i’r afael â’r materion brys y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i’r cynghorau a’r Bwrdd Iechyd ddysgu am ffyrdd mwy integredig o gomisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio.

9 Daeth ein hadolygiad i’r casgliad nad yw’r Cyngor wedi gallu manteisio i’r eithaf ar fuddion posibl gwaith partneriaeth pan fydd yn comisiynu ac yn gweinyddu lleoliadau gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio.

10 Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau hyn:

- nid yw trefniadau’r gyllideb gyfun ar gyfer llety mewn cartrefi gofal yn rhoi gwerth am arian;
- mae trefniadau’r Cyngor i gontractio gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio wedi ennill eu plwyf, ond mae newidiadau cenedlaethol diweddar i’r broses asesu ariannol wedi arwain at gost ariannol ychwanegol; ac
- mae’r Cyngor yn mynd ati i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau priodol, ond gall mynediad at arian gofal iechyd parhaus arwain at oedi ac anghytuno.

11 Nid yw’n debygol mai dim ond i’r Cyngor hwn y mae’r materion a godir yn yr adroddiad hwn yn berthnasol, ac maent yn peri risg i lawer o gynghorau a byrddau iechyd Cymru. Rydym wedi cynnal adolygiad tebyg yng Nghyngor Sir Ddinbych, y cyngor sy’n lletya’r gyllideb gyfun yn ogystal â chyfrannu ati, ac rydym wedi cynnal adolygiad yn y Bwrdd Iechyd a fu'n canolbwyntio ar y trefniadau i reoli gofal iechyd parhaus. Gallai’r adroddiadau hyn roi mwy o gyd-destun i’r materion a godir yn yr adroddiad hwn.

12 Yn 2020-21, rydym yn bwriadu cyflawni adolygiad rhanbarthol o’r trefniadau i gomisiynu gofal preswyl a gofal nyrsio, gan ganolbwyntio ar y galw a ragwelir a’r gwaith o gynllunio capasiti ledled y Gogledd.

# Cynigion gwella

**Arddangosyn 2: cynigion gwella**

Crynodeb o **Arddangosyn 2**: Mae’r tabl isod yn rhestru ein cynigion o ran y camau y gallai’r Cyngor eu cymryd i wella darbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd ei drefniadau i ariannu gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio.

| Cynigion gwella |
|---|
| C1 Ar y cyd â’r Bwrdd Iechyd, dylai’r Cyngor fynd ati i sefydlu dull strategol o ariannu a chomisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio sydd:<br>• yn pontio’r gwahaniaethau rhwng y ddau sefydliad;<br>• yn dangos gwerth am arian;<br>• yn rhoi defnyddwyr gwasanaeth wrth galon y trefniadau. |

| Cynigion gwella | |
|---|---|
| C2 | Dylai'r Cyngor ymgysylltu â phartneriaid i adolygu trefniadau'r gyllideb gyfun ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn i sicrhau bod i'r broses o drosglwyddo arian o'r naill gorff cyhoeddus i'r llall fudd go iawn, er enghraifft drwy gomisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio mewn ffordd well a mwy integredig. |
| C3 | Dylai'r Cyngor gydweithio â'r Bwrdd Iechyd i wella'r trefniadau cyfathrebu i sicrhau bod unrhyw newidiadau i anghenion iechyd unigolyn (ac felly i'w gymhwysedd i gael cyllid gofal iechyd parhaus) yn cael eu mynegi'n gyflym a bod y trefniadau ariannu'n cael eu newid. |
| C4 | Dylid ystyried rhoi diweddariad rheolaidd i aelodau etholedig drwy ddarparu gwybodaeth allweddol am berfformiad y gwasanaeth asesu ariannol, er enghraifft pa mor gyflym y mae'n asesu hawliadau ac unrhyw gostau ychwanegol i'r Cyngor yn sgil newidiadau i bolisïau Llywodraeth Cymru. |
| C5 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn defnyddio meini prawf priodol pan fydd yn cynnal asesiadau ariannol ar gyfer gofal preswyl a gofal nyrsio. |
| C6 | Dylid ystyried y newidiadau a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19 i bennu cyfleoedd i gomisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio mewn ffordd well a mwy integredig. |

# Nid yw'r Cyngor wedi gallu manteisio i'r eithaf ar fuddion posibl gwaith partneriaeth pan fydd yn comisiynu ac yn gweinyddu lleoliadau gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio

## Nid yw trefniadau'r gyllideb gyfun ar gyfer llety mewn cartrefi gofal yn rhoi gwerth am arian

13 Mae'r gofyniad i sefydlu cyllideb gyfun ar gyfer llety mewn cartrefi gofal wedi rhoi cyfle i'r Bwrdd Iechyd a'r cynghorau wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth, sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy'r broses gomisiynu, ac integreiddio

gwasanaethau i bobl hŷn yn well. Drwy weithio mewn partneriaeth, dylai'r cyfrifoldebau dros gomisiynu ac ariannu gofal mewn cartrefi preswyl neu gartrefi nyrsio fod yn fwy eglur, gan leihau nifer yr achosion lle bydd partneriaid yn anghytuno.

14 Ym mis Awst 2019, bu i Gabinet y Cyngor gymeradwyo trefniadau i sefydlu cronfa gyfun nad yw'n rhannu risg ar gyfer llety i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Byddai Cyngor Sir Ddinbych yn lletya'r gronfa a byddai'r trefniadau ar waith yn ystod blynyddoedd ariannol 2019-2022. Partneriaid y gronfa gyfun yw cynghorau Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

15 I weinyddu'r gronfa ar ran y partneriaid eraill, cafodd Cyngor Sir Ddinbych £20,000 ar gyfer 2018-19 ac mae disgwyl iddo gael yr un swm ar gyfer 2019-20 o'r cyllid trawsnewid a weinyddir yn rhanbarthol i gydnabod cost lletya'r gronfa gyfun ar ran yr holl bartneriaid.

16 Mae adroddiad i Gabinet y Cyngor ym mis Awst 2019 yn datgan mai diben trefnu cronfeydd cyfun yw annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gydweithio i sicrhau eu bod yn dylanwadu cymaint â phosibl ar y broses o ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol, sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn y tymor hir, a sicrhau bod gwasanaethau'n gallu ymateb yn hyblyg i alw lleol. Mae adroddiad y Cabinet yn datgan mai £111 miliwn (£90 miliwn ac eithrio taliadau a chyfraniadau) oedd cyfanswm y gwariant rhanbarthol yn 2018-19.

17 Yn ei gyhoeddiad, **Pooled budgets and the integration agenda in Wales**, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn datgan na cheir un diffiniad o gyllideb gyfun mewn termau cyfrifyddu nac yn y ddeddfwriaeth. Mae rheoliad 7 o OS 2000/2993 yn dweud bod cronfa gyfun yn cael 'ei ffurfio o gyfraniadau gan y partneriaid ac y gellir gwneud taliadau ohoni tuag at wariant a dynnir wrth arfer unrhyw rai o swyddogaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd'.

18 Ar adeg cynnal ein gwaith maes, roedd y gyllideb gyfun wedi prosesu tri thaliad chwarterol gwerth cyfanswm o £70.8 miliwn, fel a ganlyn – taliad chwarter un ar 18 Chwefror 2020 gwerth cyfanswm o £20.7 miliwn, taliad chwarter dau ar 25 Chwefror 2020 gwerth cyfanswm o £24.3 miliwn, a thaliad chwarter tri ar 14 Ionawr 2020 gwerth cyfanswm o £25.8 miliwn. Ar sail y taliadau hyd yma, gall y gyllideb gyfun ddisgwyl prosesu tua £94 miliwn mewn blwyddyn gyfan.

19 Drwy drosglwyddo arian i Gyngor Sir Ddinbych, bydd y Bwrdd Iechyd a'r pum cyngor arall sy'n bartneriaid yn talu i'r 'gronfa' gyfraniad ariannol sy'n gyfwerth â chyfanswm eu gwariant net ar ofal i bobl hŷn mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio bob chwarter. Hyd yma, talwyd cyfanswm o £60.5 miliwn.

20 Mae'r Cyngor yn trosglwyddo ei gyfraniad ariannol o'i gronfa gyffredinol. Mae'r tabl a ganlyn yn dangos cyfraniad y Cyngor i'r gyllideb gyfun bob chwarter.

**Arddangosyn 3**

| | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 |
|---|---|---|---|
| Gwariant ac eithrio cyfraniadau cleientiaid | £3.3 miliwn | £4.1 miliwn | £4.0 miliwn |
| Llai gofal mewn cartrefi nyrsio a ariennir gan y Bwrdd Iechyd | £0 | £588,000 | £294,000 |
| Llai cyfraniadau'r Bwrdd Iechyd at ofal a ariennir ar y cyd | £0 | £11,273 | £205,944 |
| Cyfraniad net Conwy i'r gyllideb gyfun | £3.3 miliwn | £3.5 miliwn | £3.5 miliwn |

21 Ar yr union ddiwrnod y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn cyfraniadau ariannol y Bwrdd Iechyd a'r pum cyngor arall, bydd yn ad-dalu'r un symiau i'r Bwrdd Iechyd a'r pum cyngor sy'n bartneriaid. Mae Llywodraeth Cymru'n gwybod am y trefniant hwn ac mae'n fodlon ei fod yn bodloni'r meini prawf cydymffurfio technegol gofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

22 Yn ymarferol, nid yw'r Cyngor yn gallu dangos sut y mae'r trosglwyddiad chwarterol hwn:

- yn rhoi gwerth am arian;
- yn mynd i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol;
- yn mynd i ddylanwadu ar gynaliadwyedd yn y tymor hir; nac
- yn helpu'r partneriaid i ymateb yn hyblyg i alw lleol.

23 Rydym yn tybio bod hon yn ffordd wael o ddefnyddio arian cyhoeddus, a'i bod yn rhoi gwerth gwael am arian.

## Mae trefniadau'r Cyngor i gontractio gofal mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio wedi ennill eu plwyf, ond mae newidiadau cenedlaethol diweddar i'r broses asesu ariannol wedi arwain at gost ariannol ychwanegol

24 O ran defnyddwyr gwasanaeth heb anghenion iechyd sylfaenol penodol, mae'r cynghorau'n gyfrifol am asesu a bodloni eu hanghenion gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi llunio trefniadau contractio â darparwyr gofal preswyl a gofal nyrsio yng Nghonwy a thu hwnt. Weithiau, bydd hefyd yn rhannu costau gofal â'r Bwrdd Iechyd.

25 Pan fydd y Cyngor yn gyfrifol am gontractio gofal preswyl neu ofal nyrsio, bydd yn asesu sefyllfa ariannol defnyddiwr y gwasanaeth i bennu faint y dylai ei dalu tuag at ei gostau gofal. Mae'r Cyngor yn casglu cyfraniadau defnyddiwr y gwasanaeth drwy ddarparwr y cartref gofal.

## Gofal mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio a ariennir gan ddefnyddiwr y gwasanaeth

26 Bydd defnyddwyr gwasanaeth a chanddynt gyfalaf o £50,000[3] neu ragor, neu rai sy'n dewis peidio â datgelu manylion eu hincwm a'u cyfalaf, yn ariannu eu costau gofal yn llwyr. Pan fydd y Cyngor yn llunio contract â darparwr cartref gofal sy'n rhoi rhywfaint o sicrwydd o ran ansawdd y gofal a ddarperir, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn talu pris y gofal a gontractiwyd i ddarparwr y cartref gofal. Gan wybod bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth ddigon o arian i ariannu eu holl gostau gofal, gall y cartref gofal ofyn iddynt dalu swm atodol trydydd parti, er enghraifft, i gael ystafell fwy o faint neu ystafell â golygfa well. O'r herwydd, gallai cyfalaf defnyddwyr gwasanaeth leihau'n gyflymach, ac fe allent ofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor yn gynharach. Ar adeg cynnal ein gwaith maes ym mis Chwefror 2020, roedd y Cyngor yn rhoi cymorth ariannol i wyth darparwr gwasanaeth er mwyn iddynt dalu'r swm atodol hwn, ac roedd hyn yn costio £353 yr wythnos yr un i'r Cyngor. Roedd perthnasau a ffrindiau hefyd yn talu symiau atodol 25 defnyddiwr gwasanaeth arall, ac roedd hyn yn costio cyfanswm o £5,723 yr wythnos iddynt.

27 Gall defnyddwyr gwasanaeth lunio contract uniongyrchol ar gyfer eu gofal â darparwr y cartref gofal. Gall hyn beri iddynt dalu mwy am eu gofal na phe bai'r Cyngor wedi comisiynu gofal ar eu rhan. Os bydd preswylwyr yn talu mwy am eu gofal nag y byddent wedi'i wneud o dan gontract y Cyngor, bydd eu cyfalaf yn lleihau'n gyflymach ac fe allent ofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor yn gynharach. Nid yw'r Cyngor yn darparu gwasanaeth i negodi contractau ar ran y defnyddwyr gwasanaeth hyn, ac mae'n anochel bod llai o sicrwydd o ran ansawdd y gofal a ddarperir iddynt o'i gymharu â'r gwasanaethau sy'n cael eu contractio gan y Cyngor.

## Gofal mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio a ariennir ar y cyd gan y Cyngor a defnyddiwr y gwasanaeth

28 Fel y nodir ym **mharagraff 25**, pan fydd y Cyngor yn gyfrifol am gontractio gofal preswyl neu ofal nyrsio, bydd yn asesu sefyllfa ariannol defnyddiwr y gwasanaeth i bennu faint y dylai ei dalu tuag at ei gostau gofal. Y Tîm Asesiadau Ariannol sy'n cynnal asesiadau ariannol. Ar adeg cynnal ein gwaith maes ym mis Chwefror 2019, roedd y Cyngor yn ariannu 554 o bobl mewn cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio. O'u plith, roedd 163 mewn lleoliadau tu allan i Gonwy, gyda thros 50% o'r rheini yn Sir Ddinbych. Cynyddodd Llywodraeth Cymru'r terfyn cyfalaf uchaf ar gyfer asesiadau ariannol yn raddol o £24,000 ym mis Mawrth 2016 i £50,000 ym mis Ebrill 2019. Rhaid i breswylwyr â mwy o gyfalaf na'r terfyn uchaf dalu am eu gofal yn llwyr. O'r herwydd, mae'r Cyngor wedi ariannu'n rhannol ffioedd cartref

[3] Ers 8 Ebrill 2019, rhaid i bobl sy'n byw yng Nghymru dalu holl gost eu gofal preswyl os oes ganddynt asedau gwerth mwy na £50,000.

gofal y bobl hynny â chyfalaf rhwng £24,000 a £50,000: ni fyddai wedi gwneud hyn cyn cynyddu'r terfyn.

29 Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod hyn wedi costio tua £864,675 iddo yn ystod hanner cyntaf 2019-20, gan roi mwy o bwysau ar y gyllideb gofal cymdeithasol. Gan fod cynghorau bellach yn gorfod rhoi cymorth ariannol i fwy o'u preswylwyr nag o'r blaen, mae Llywodraeth Cymru'n darparu £18.5 miliwn ychwanegol y flwyddyn ledled Cymru. Dosberthir yr arian hwn ar sail fformiwla, felly mae pob cyngor yn cael cyfran o'r £18.5 miliwn.

30 Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd yr Aelodau etholedig y buom yn siarad â nhw yn gwybod am y costau ychwanegol hyn, ac er bod y mater wedi'i godi mewn un cyfarfod o'r Cabinet yn 2018, ni chodwyd y mater mewn unrhyw gyfarfod craffu yn ystod 2019-20. Ymhellach, yn ystod 2019-20 dim ond gwybodaeth gyfyngedig am berfformiad, megis cyflymder prosesu asesiadau, a gyflwynwyd i'r Cyngor.

31 Mae'r asesiadau ariannol a gynhelir gan y Cyngor yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn nogfen Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol). Mae'r canllawiau'n nodi bod angen i'r Cyngor gadw llygad am achosion o amddifadu asedau 'lle mae person wedi ceisio osgoi talu am ofal a chymorth yn fwriadol drwy amddifadu ei hun o'i asedau – naill ai cyfalaf neu incwm'. Yn 2019-20, cynhaliodd tîm asesiadau ariannol Conwy dros 1,800 o asesiadau ar gyfer pobl a oedd yn cael gofal preswyl neu ofal nyrsio. Cynhaliodd 15 ymchwiliad amddifadu asedau, ac fe brofodd dri o'r achosion hyn. Mae ffurflen gais y Cyngor i gael asesiad ariannol yn gofyn a yw unigolyn wedi gwerthu eiddo, ei drosglwyddo, neu'i roi i rywun yn ystod y tair blynedd diwethaf. Serch hynny, er bod rhaid ystyried pob cais ar sail amgylchiadau'r unigolyn, fel y nodir yn achos Yule yn erbyn Cyngor De Swydd Lanark [1999] 1 CCLR 546, nid oes terfyn amser o ran y cyfnod y gall cynghorau ei ystyried pan fyddant yn penderfynu a yw unigolyn wedi ei amddifadu ei hun o'i asedau'n fwriadol i osgoi talu costau gofal preswyl.

## Mae'r Cyngor yn mynd ati i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau priodol, ond gall mynediad at arian gofal iechyd parhaus arwain at oedi ac anghytuno

### Gofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG

32 I gytuno i ariannu gofal iechyd parhaus, dylai tîm amlddisgyblaeth sy'n cynnwys staff y cyngor a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofalu am ddefnyddiwr gwasanaeth, gan ymgysylltu â'r unigolyn ei hun ac aelodau o'i deulu agos, gydweithio i gwblhau Adnodd Cymorth Penderfynu sy'n nodi'r anghenion iechyd sylfaenol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried yr Adnodd Cymorth Penderfynu ac, os bydd yn cadarnhau argymhelliad y tîm amlddisgyblaeth, bydd yn sicrhau ansawdd ac yn comisiynu'r pecyn gofal. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn cytuno i ariannu gofal iechyd parhaus, bydd yn ysgwyddo holl gostau'r gofal; ni fydd

defnyddiwr y gwasanaeth yn cyfrannu at gostau'r gofal. Ar adeg cynnal ein gwaith maes ym mis Chwefror 2019, roedd 171 o bobl hŷn Conwy yn cael gofal iechyd parhaus wedi'i ariannu'n llwyr.

33 Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir yn y **Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru**[4] '[na] ddylai'r unigolyn brofi unrhyw oedi cyn i'w anghenion gael eu diwallu am nad yw asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Rhaid ystyried opsiynau cyllidebu ar y cyd neu gyfun os gall y rhain hyrwyddo ymatebion cyflymach ac, o ganlyniad i hynny, mwy effeithlon i anghenion a dewisiadau unigolyn. Mae gan gomisiynwyr gyfrifoldeb i ddatrys pryderon / anghydfodau cyn gynted â phosibl.'

34 Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym fod y Bwrdd Iechyd yn aml yn herio neu'n gwrthod argymhellion y tîm amlddisgyblaeth, weithiau heb egluro'r rhesymau yn fanwl neu o gwbl. Gall y tîm amlddisgyblaeth ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ategu ei argymhellion mewn achosion o'r fath. Gall y Bwrdd Iechyd hefyd ofyn i'r tîm amlddisgyblaeth ailystyried cymhwysedd arfaethedig yr unigolyn ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae'n bwysig bod aelodau'r tîm amlddisgyblaeth yn deall y rhesymau pam nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo cyllid gofal iechyd parhaus er mwyn iddo ddysgu cyn gwneud ceisiadau yn y dyfodol ac egluro'r sefyllfa wrth ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd. Oherwydd nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, gall fod oedi cyn diwallu anghenion unigolion; ond mae'r Cyngor yn mynd ati i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth lle bo modd, a hynny fel rheol drwy barhau i dalu'r costau gofal hyd nes iddo ef a'r Bwrdd Iechyd gytuno pa sefydliad sy'n gyfrifol. Yn ystod ein gwaith maes ym mis Chwefror 2020, roedd y Cyngor yn aros i glywed am ganlyniad pedwar achos lle'r oedd anghytuno ynghylch ariannu gofal iechyd parhaus i oedolion gwerth cyfanswm o £158,012. Yn ychwanegol at hyn, ceir rhai 'anfonebau hanesyddol' a godwyd cyn mis Ebrill 2018 sy'n ymwneud â 31 achos ar draws gwasanaethau, a gwasanaethau o bob math, a dyled gwerth cyfanswm o £712,523. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn mynd i'r afael â'r mater hwn mewn ffordd bositif â'i gydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd.

35 Cawsom wybod am achosion lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleoli cleifion mewn cartrefi nyrsio o dan drefniadau gofal iechyd parhaus, cyn asesu, wrth adolygu'r achosion, nad oes gan y claf anghenion iechyd sylfaenol mwyach, anghenion yr oedd y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am eu diwallu. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae darparwr y cartref gofal mewn sefyllfa amhosibl:

- mae'r claf wedi ymgartrefu ac nid oes ganddo/ganddi gartref arall i fynd iddo;
- nid oes trefniant contractiol â'r Cyngor;
- gall y contract â'r Bwrdd Iechyd fod wedi dod i ben ai peidio, ond os nad oes anghenion gofal iechyd sylfaenol, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gyfrifol am ariannu'r gofal.

[4] **Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru 2014**

Mewn achosion o'r fath, lle y dylai cytundeb trosglwyddo fod yn ei le, nid yw'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn cyfathrebu'n effeithiol ar brydiau i sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo'n brydlon.

## Gofal mewn cartrefi nyrsio a ariennir gan y GIG

36 Gall y Bwrdd Iechyd gytuno i ariannu gofal nyrsio i bobl

- sy'n byw mewn cartref nyrsio ac nad ydynt yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus;
- sy'n dal i gael eu hasesu fel pobl y mae angen gwasanaethau nyrs gofrestredig arnynt;
- nad ydynt yn cael gofal nyrsio cofrestredig mewn unrhyw ffordd arall ee gan nyrsys ardal.

Mewn achosion o'r fath, mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gyfrannu £165.56 i dalu am yr elfen gofal nyrsio a ariennir sy'n rhan o ffioedd y cartref gofal. Bydd y Cyngor a defnyddiwr y gwasanaeth yn talu gweddill y gost; nid yw defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at yr elfen gofal nyrsio a ariennir, ond maent yn cael asesiad ariannol i bennu faint y dylent ei dalu tuag at weddill y costau gofal.

37 Y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am ofal a ariennir gan y GIG mewn cartrefi nyrsio, a dylai'r contract fod rhwng y Bwrdd Iechyd a darparwr y cartref gofal. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos nad yw cyfraniadau at y gyllideb gyfun yn cynnwys yr elfen gofal nyrsio a ariennir, gan awgrymu bod y Cyngor wedi gwneud taliadau ar ran y Bwrdd Iechyd am y gwasanaeth hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ad-dalu'r Cyngor am y symiau a dalwyd ganddo. Nid oes trefniant contractiol ar gyfer yr elfen gofal nyrsio a ariennir, ac mae'r symiau a delir yn seiliedig ar ewyllys da rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

## Gofal mewn cartref nyrsio a ariennir ar y cyd gan y GIG a'r Cyngor

38 Gall pobl sy'n cael eu lleoli mewn cartref nyrsio nad ydynt yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus gael eu hariannu ar y cyd gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd o hyd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd contract tair-ffordd yn cael ei lunio sy'n cydnabod cyfrifoldebau'r Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r darparwr. Fel rheol, bydd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r costau, 50% yr un, ond ceir enghreifftiau lle nad yw'r costau'n cael eu rhannu 50/50. Mae'r Cyngor yn talu am yr holl gostau gofal, yna mae'n gofyn i'r Bwrdd Iechyd ei ad-dalu. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn talu eu cyfraniadau'n uniongyrchol i'r darparwr.

39 Nid oes cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd sy'n trafod ad-dalu cyfraniad y Bwrdd Iechyd i'r Cyngor. Mae'r tabl yn **Arddangosyn 3** yn dangos na wnaed unrhyw gyfraniadau i'r Cyngor o ran y trefniadau ariannu ar y cyd yn ystod chwarter un, ac mai dim ond £11,273 a dalwyd yn chwarter dau, ac yna £205,944 yn chwarter tri. A chymryd nad gwall cyfrifyddu yw hwn, mae hyn yn awgrymu bod nifer o leoliadau sylweddol iawn a ariennir ar y cyd wedi'u trefnu yn ystod chwarter tri, neu nad yw'r Cyngor yn cael cyfraniadau gan y Bwrdd Iechyd yn brydlon.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.